

Lleisiau Milltir Sgwâr

gan Alice Eklund



Mae na rhywbeth i ddeud y gwir ar dant bawb yma, yn dibynnu ar beth da chi'n edrych am..

I mi mae'n golygu y mynyddoedd

Ucheldir

mynyddoedd

mynyddig

mynyddig

ooh

gwyllt

gwyllt

gwyrdd

garw?

Da buw' yn crwydro ac yn pori

agos

chwedlonol

pwerus, dwi'n meddwl

cymuned

unig

glaw.

Gwlyb... haha gwlyb ia.

Haf neu gaea' ma' 'na rhywbeth gwahanol i'w weld.

A mae rhywbeth am y lle 'ma?

Lle i enaid gael llonydd.

Ie ma' strapline lle i enaid gael llonydd.. mae honna'n wir yndydi?

Pobl- pobl hefyd. Sut mae pobl 'di siapio fo ia?

Mhmm.

O'n i'n gwbod pa mor bwysig oedd y tirwedd i bobl ond, o'n i ddim 'di gallu gwerthfawrogi hynna.

Mae'r tirwedd yn adrodd hanes-

ie-

perthynas bobl hefo'r tirwedd-

yndi.

Mae hanes yr ardal a sut mae'r tirwedd wedi cyfrannu at yr hanes

Da' ni ddim yn dallt yr hanes a sydd tu cefn i ni yn aml iawn.

Cynefin ni yw hi ddim just yr, y byd natur, da ni'n rhan ohono fo

Dwi'm gwybod, dwi'n cal fy nhynnu ma'n rhywsut

Y tirwedd sydd yn atynnu bobl

Yn tynnu bobl i ddod yma fel ail-gatre'

Oherwydd mae 'na lot o ryddid yn y tirwedd, efallai dyna pam mae ucheldiroedd mor atyniol

Darganfod rhyddid o fewn y tirwedd

Wnes i erioed teimlo'r dynfa i fynd o 'ma

Um..i fod yn onest, onest onest, pryd o'n i'n tyfu fyny o'n i isho dianc hefyd

Mae gynnon ni tri o blant, mae nhw i gyd wedi gadael cartref erbyn hyn, ond, beth mae'n nhw'n neud pan mae nhw'n dychwelyd ydy fynd allan yn y tirwedd lot.

Dyna o'n i wastad isho neud odd fynd, fyny mynydd ar ôl dod nôl, achos, dydy- does gen ti ddim y cyfleoedd 'na pan ti'n byw yn Gaerdydd rhun fath nagoes?

Dwi just yn teimlo- dwi'n gwerthfawrogi fo' hyd-noed mwy 'wan, dwi isho neud y mwya' ohono fo, ag efo bachgen bach sy' g'nai- bo fi really isho iddo fo, bod o'n normal iddo fo, bo ni yn mynd i'r mynyddoedd

Lle braf i magu plant, lle allet ti rhoi 'chydig bach mwy o- dwi'n meddwl- bach fwy o ryddid i dy blant, gallu mwynhau fod tu allan, fod yn yr tirwedd sy'n haws na byw lle gesh i'n magu ar stâd yn ganol dre 'llu.

Dwi'n- dwi'n teimlo fod plant sy'n tyfu fyny dyddiau yma, ddim- sdim gennyn nhw hanner y cyswllt ag odd gennyf fi gyda natur pan o'n i'n dringo coed ag yn adaeiladu dens a ballu.

Y plant ysgol cynradd- y nhw di- if we can get- grab them- even if it's just deg y cant o nhw yn penderfynu wnewn ni aros yn Eryri am bywoliaeth ni, bydd hynny'n peth da.

Dwi'n meddwl os-

os di oedolion, y bobl sydd o gwmpas pobl ifanc yn dallt mwy am yr her sy'n gwynebu natur a'r amgylchedd, falle mae na obaith bod yr-

y sgwrs a'r iaith sydd yn cael ei ddefnyddio o amgylch natur,

um, yn fwy addas ar gyfer pobl ifanc a gobeithio yn ei ysbrydoli nhw i-
i - fod isho, o i werthfawrogi fo ynde?

Mae rhaid i fi ddeud de, wrth feddwl nôl ar ddyddiau ysgol,
o'n nhw'n oreit, ond dwi'n meddwl y peth wnes i fwynhau'n fwya'-
y prosiect wnes i fwynhau'n fwya' ynde, oedd um, fatha deud hanes y ffarm lle o'n i dyfu fyny,
lle nath dad dyfu fyny, lle nath taid dyfu fyny, a jyst cael y cyfle i bigo brains dad.
Enwau'r caeau i gyd ar y ffarm, cofnodi nhw, chwilio ambyti nhw, ym enwau brilliant ynde fatha
"Cae Stryd y Cerrig", "Cae Cetyn"- "Cae Post",
o ia, jyst cael plymio bach i hanes yr enwau 'ma, ag um,
rhoi nhw ar god â chadw a wedyn mae lyfr sydd gynnaf fi adre-
TGAU hanes dwi'n meddwl odd o.
Dwi'n hoffi sbio nôl arno fo a wedyn
y teulu sy'n byw ar y fferm rwan ma nhw yn rili mwynhau benthyg y llyfr
a just cael bach mwy o hanes y lle.

Os di rhywun y ceisio chwilio am cyfeiriad-
os da nhw'n mynd allan a chwilio am rhyw fferm,
a 'rioed di bod 'na o'r blaen- mae'r enw yn helpu rhywun sut i ffindio fo.
Mae'n disgrifio sut mae'n eistedd yn y tirwedd.

Achos lle dwi'n byw mae 'na ffermydd ar ôl y Mabinogion, Bryn Saeth, Bryn Cyfergyd- so dwi'n
feddwl, a'r hanes tu ôl i'r hen enwau 'na.

Na dwi'n meddwl bod yr iaith Gymraeg sicr i fi yn bersonol- fatha os nas de, enw Gymraeg i rhywle,
neu bo fi'm yn deall be dy'r enw Cymraeg, d'iom yn teimlo fel Cymru, diom yn teimlo fatha adre,
bod gennai cysylltiad gryf hefo'r lle heb enw Cymraeg

T'mod os da chi'n newid yr enwau, y tai ma a ballu, mae'r hanes yn mynd i fynd hefo fo

Da ni'n cadw'r iaith yn mynd oherwydd mae pobl yn gwybod enwau llefydd- mae llefydd, mae
nhw'n feddwl fatha lle dwi'n byw fatha Llanfechan- mae hynna'n golygu "church of Mary" felly mae
na hanes y llefydd i fewn i'r iaith hefyd.

Mae nhw'n gofyn, "Oh why is it, why's the name been changed?" t'mod y fath o beth
a ti angen esbonio iddyn nhw wedyn, "t'wel dyw'r enw ddim 'di newid, mae nhw jyst di fatha,
dropo'r enw Saesneg",

dwi'n- dwi'n i weld o'n beth bositif i gadw'r iaith yn fyw ac i gadw bwysigrwydd yr iaith, a'i barchu
ond s'ach chi'n mynd dramor s'ach chi'n galw'r adeiladau a'r pethau yna yn iaith eich hun bysech
sa' gynnyn nhw enwau nhw, enwau lleol

Ond ma na, ia, mae na enwau neis, mae na- dyn nhw ddim wastad yn cyfieithu chwaith?
Nag 'dy.

Dwi'n teimlo fod enwau Cymraeg yn lot fwy disgrifiadol, um, ac mwy quirky, mwy- dwi'm gwybod,
mae na rhywbeth really unigryw am enwau Gymraeg i lefydd, dwi'n meddwl, mae nhw- achos bod
nhw'n mor hen, dwi'n cymryd, mae;r enwau wedi dod o ganrifoedd

Wrth ddeud hynna ni wedi diog ein hunain hefyd-

Do-

Achos mae yna cannoedd o "Llynoedd Du" o gwmpas Gogledd Cymru

[Chwerthin]

-a mae o mor confusing 'de?

Dwi'n meddwl fod yr enwau Cymraeg am- am rywogaethau yn dwi'n teimlo- a dwi'm siwr os mae 'na cognitive bias neu rhywbeth sy da fi ond dwi'n teimlo fatha fod na- fod na lot fwy o gariad a meddwl 'di mynd mewn i'r enwau 'na.

Mae'r iaith yn bwysig iawn, dwi'n meddwl yndi? A mae'n egluro be mae'r tirlun yn feddwl mae'n diddorol di gweld hen bethau a trio feddwl be mae e'n ei olygu, achos mae rhai o'r geiriau mae nhw'n defnyddio mae nhw di mynd allan o ddefnydd rwan felly, mae o'n bach o waith darganfod be mae'r di ystyr yr enw felly ynde?

Os mae o yn dy boeni di gweld-pan o'n i'n byw yn Maentwrog erstmalwm, odd enwau Cymraeg ond nawr wedi newid i 'Happy House' a ballu, t'mod? A ddim yn, di hynna ddim yn, di'r Cymraeg ei hun yn mynd o'r golwg fela 'fyd t'mod?

Dwi'm meddwl fel cenedl ni ddim yn dda iawn am dangos i bobl lle ma'r pethau ma a adrodd yr hanes, sicr ar y safle. Dw i ond yn gwybod bod rhywbeth yn bodoli mewn rhyw gerdd yn rhywle, oherwydd bo fi di darllen o o fewn rhyw llyfr a bo fy just hefo natur- gennai ddiddordeb mewn hanes 'llu.

A fel ti'n deud hefo'r cenedlaethau ma, mae pasio yr chwed- yr- yr- holl bethau ma da ni di son am, yr enwau ma ymlaen hefyd, so dyw e ddim yn rhywbteh sydd just yn stopio hefo'r cenedlaeth hyn.

Dwi'n neud lot o waith recordio hanes llafar bobl hyn yn y gymuned.

Sydd yn golygu lot o byta cacen, really anodd, really tough job.

Ond, dwi'n - na'n un o'r cwestiynnau dwi'n gofyn i lot ohonyn nhw yw "d'ach chi'n gweld byd natur wedi newid"-

le, ie-

"ers i chi fod yn ifanc?"

a mae hwn- mae nhw- mae'r rhan fwyaf ohonyn nhw yn deud, ma' nhw jyst yn gweld llai ohono fo- le-

so ma'r ffermwyr Carneddau yn son am sut oedden nhw'n mynd allan a marcio allan nythau yn y caeau cyn mynd ati i dorri neu mynd efo'r arot de a d'yn nhw ddim yn neud 'na, achos d'yn nhw ddim yn gweld nythau.

le, dwi'n gweld o'n od mewn ffordd- fel awdurdod ni di bod yn hybu bobl ar y cyfryngau cymdeithasol-

"cymrwch lun, rhannwch o"

a wedyn rwan mae'r rho di droi yn bech a dan ni'n rhyw fath o ddeud

"peidiwch a gymryd gormod o luniau, peidiwch â rhannu gormod, lle mae llefydd bregus, sensitif 'ma".

Weithio'n teimlo bod ni'n cael diffyg hyder, weithiau bod ni'n reit hyderus, gyda tîm rygbi neu tîm pêl-droed, so ni'n gallu fod yn mwy hyderus am mathau eraill o diwylliant ni, um, byse hynna'n codi ymwybyddiaeth, creu fwy o addysg o gwmpas pethau bendigedig-

Da ni'n rhy humble.

Parch ydy'r gair allweddol really, achos ti isho i bobl- ti isho dangos ein byd, a be sydd gennom ni i gynnig ond ti isho i bobl barchu o pan mae'n nhw'n dod, a fel ti'n dweud tirwedd iaith a diwylliant bob dim, dyd'r storis ddim allan 'na.

Byswn i'n mynd syth am Blodeuwedd, dwi'm yn gwbod pam ond dwi'n meddwl dyna yw'r agosa' o lle dwi'n dod hefyd

Stori Branwen o'r Mabinogi, chwedl, um, mae pobl yn aml iawn yn rollo'i llygid pan ti'n sôn am y Mabinogi, achos mae pawb wedi clywed am rheini a mae cymaint o rai straeon lleol mwy cyfoethog ella', um, ond mae hi'n stori epig, a un o brif chwedlau y genedl a chi'n gallu dychmygu hi o'r graig lle mae'r cadair a'r Castell Harlech yn sefyll, a ti'n gallu gweld y chwedl yn digwydd o flaen dy lygid di

Dinas Emrys achos mae'n neud i chi deimlo'n balch bod y draig goch di curo'r frwydr a petha fela, a Gelert just achos bod o'n PR marketing genius-

Dwi'n mynd a bobl i lan i le da nhw i Llech Ronw, ges i'm magu ar hen tir fferm, Llech Ronw, lle mae'r craig hefo'r-

twll-

twll yno fo, reit i gwaelod y'r afon, um, so yeah mae hynna'n lle da i fynd, ella hefyd yn bach o PR marketing genius-

Chwedl Culhwch ac Olwen lle mae'r Twrch Trwyth yn mynd ar ei wel- rampage trwy Gymru a wedyn bod enwau, yr enwau lleoedd yn cyfeirio at- lefydd fel 'Mochdre' yn cyfeirio at y ffaith bod y Twrch Trwyth di fod wedi rhedeg trwy'r lle a creu bob math o drafferth.

Carreg, boulder, yn y Carneddau-

Oh right-

-gydag enw yn ôl y tradoddiad lleol, o 'Maen Cwrw'-

O really?

Just boulder ar ei ben ei hun yng nghanol nunlle-

so fanna oedden nhw'n mynd-

oherwydd, pan roedden nhw'n mynd â'r da buw' fyny o'r iseldiroedd, eto i'r tir comen, um,

neithon nhw aros 'na i gael peint o cwrw-

ie-

wedi cael ei darparu yn yr ardal yna

So ni'n gallu gal mwy a mwy o rheina o bobl, o bethau lleol, fatha mae stori 'Bwlch y Rhiwgyr' odd Bwlch Rhiw Gyrn, fathau Ardudwy, odd civil war spies odd yn cuddio dan bwlch ar yr hen ffor' na, ag o'n nhw'n defnyddio cyrn i pasio negeseuon ymlaen ac ati.

A dyma ydi lot o'r straeon 'ma, symbolau fel ti'n deud-

le-

symbol o bŵer ydy-

le-

er mae Tylwyth teg yn go iawn, ti'n gwbod 'ny, yn dwyt?

Mae 'na ddyfyniad enwog gan Tolkein yn does am y ffor' ma o'n defnyddio'r Cymraeg yn ei waith o a mae'n cael ei ysbrydoli gan y Gymraeg ac yn dweud fatha-

"Welsh is of this land"

ac yn y blaen, 'llu, a dwi'n meddwl mae hynna yndydi? Mae pobl yn, bod nhw'n, wrth warchod y tir mae'r ffordd mae nhw'n defnyddio Cymraeg o ddydd i ddydd mae'n nhw'n meddwl amdano fo fel mewn ffordd mae nhw'n gofalu am y lle bod y ddau peth yn cydfynd.

Helpu creu cysylltiadau hefo lle a um, mae'n dod yn rhan o dy, mae'n dod yn rhan ohonach di.

Oni bai bod ti yn gneud ymdrech i ddysgu mwy am y straeon ma dio ddim yn mynd i ddod i'ch di heb bo'ch ti'n neud ymdrech really nagyw hi?

Ag i fod allan yn y natur mae'r pobl isho gwybod yr hanes, isho gwybod y wybodaeth

Ac hefyd efallai i helpu bobl i ddarganfod pethau diddorol am ei hun?

Mae bob milltir sgwâr a llên gwerin a chwedl, bysa chi'n gallu fatha cerdded lawr lô o unrhyw le wyt ti yn Eryri a mae 'na chwedl benodol i'r ardal yna, a mae nhw'n, weithiau mae nwh'n gysylltiedig gyda mytholeg, fatha bron mytholeg llwyr, ond rhan gwyaf o'r amser mae na gyswllt efo rhyw disgwyddiad hanesyddol, neu neges hanesyddol ag oedd yn bwysig. A dyna be ydyn ni, ynde? Da ni'n mabwysiadu treftadaeth llwyr llafar. Mae bob dim da ni di creu, dweud, di gael ei basio lawr ar lafar.

Na ma'n le, mae'n le sbesial iawn.

Na, allai ddim dychmygu byw rhywle heb natur o'n gwmpas i, ynde?

Bob dydd mae na jyst rhwybeth i sbia'd ar rhywbeth gwahanol

um,

lliwiau newydd

ogleuo' n newid.

Really gwerthfawrogi beth sydd gennan ni'n fama 'wan, um,

A be' ma'n gallu rhoi'd iddo'ch chdi

a be ti'n gallu rhoi'd iddo fo hefyd.

Da ni'n byw yn y lle gorau'n y byd, go iawn.

Byswn i ddim isho bod yn nunlle arall.

